

# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Craffu Lle  
Neuadd y Sir Brynbuga  
Dydd Iau, 12fed Ionawr, 2023, 12.30 pm**

## **Cynghorwyr yn Bresennol**

Cynghorydd Sir Lisa Dymock (Cadeirydd)

Cynghorydd Sir: Louise Brown, Emma Bryn,  
Ben Callard, Ian Chandler, Su McConnel,  
Jackie Strong, Rachel Buckler, John Crook

## **Swyddogion yn Bresennol**

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu  
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle  
Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter

**Ymddiheuriadau:** Dim

### **1. Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### **2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw sylwadau wedi eu cyflwyno.

### **3. Strategaeth Toiledau Lleol**

Roedd David Jones wedi cyflwyno'r adroddiad ac ateb cwestiynau'r Aelodau gyda'r Aelod Cabinet Sara Burch.

**Her:**

*Nid oes yna gyfeiriad at doiledau sydd yn hygyrch o ran Stoma – a oes modd cynnwys hyn yn y cynllun gweithredu? e.e. arwyddion ar y drysau?*

Nid ydym yn sicr ar hyn o bryd pa addasiadau sydd angen eu gwneud ond rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl doiledau yn hygyrch i bawb, ac felly, byddwn yn ymchwilio'r mater hwn. Mae adrannau eraill yn ymwybodol (e.e. Gwasanaethau Landlordiaid); byddem yn croesawu'r wybodaeth angenrheidiol gan y Cynghorydd. Fel rhan o'r cynllun gweithredu, byddwn yn darparu'r arwyddion priodol.

*Mae'r rhestr o doiledau sydd ar gael yn hen e.e. mae Llyfrgell Stryd Baker yn y Fenni a'r amgueddfa ar Stryd y Priordy wedi eu cau. Ac nid oes sôn am amseroedd agor y toiledau – byddai hyn yn ddefnyddiol iawn.*

Mae yna ddolen ar ddiwedd y strategaeth sydd yn rhoi'r wybodaeth hon ond rydym yn derbyn y pwynt fod angen diweddarau'r rhestr. Nid yw'r ddolen yn gweithio ar hyn o bryd a byddwn yn datrys hyn.

*Nid oes yna asesiad o ble y mae cyfleusterau newid babi a ph'un ai eu bod yn doiledau ar gyfer menywod neu ddynion - nid yw hyn yn cael ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Integredig.*

Mae'r cyfleusterau yma wedi eu mapio yn y ffynhonnell sydd ar gael drwy'r ddolen a sonnir amdani uchod, ond bydd yn cael ei adolygu gyda Map Data Cymru eleni er mwyn rhoi darlun mwy eglur o'r hyn yw'r cyfleusterau a ble yn union mae'r cyfleusterau yma. Dylai cyfleusterau newid y ddau rhyw fod ar fael gan fod hyn yn ofynnol yn ôl Llywodraeth Cymru ond byddwn yn cadarnhau hyn.

*Bydd darpariaeth 'Gofodau Newid' yn cael ei 'ystyried' - mae' gair yma yn rhy wan o feddwl am ein huchelgais a'r gofyniad i wella ein cyfleusterau. A oes modd cynnwys rhywbeth cryfach?*

Oes – mae modd cryfhau hyn.

*Dywed yr arolwg fod 67% yn ystyried bod darpariaeth ar gyfer yr anabl yn annigonol. Beth sydd yn digwydd er mwyn mynd i'r afael gyda hyn – nid oes dim byd yn y strategaeth?*

Mae mynediad at doiledau anabl yn medru bod yn anodd gan fod ceisio cyrraedd y Safonau Prydeinig yn medru achosi rhai ohonynt i gael eu cau gan nad yw'r dimensiynau yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau. Bydd Gwasanaethau Landlordiaid yn medru cynnig cyngor am hyn, ond mae'r arolwg yn dangos fod dau draean yn annigonol. Rydym wedi cyfeirio at 'Ofodau Newid' ond byddai unrhyw berson anabl yn medru cael mynediad at hyn.

*Byddai gwahaniaethu'r data yn yr arolwg am ba mor fodlon yw dynion a menywod a grwpiau eraill ynglŷn â'r cyfleusterau yn ddefnyddiol iawn.*

Dilynwyd canllaw Llywodraeth Cymru ar y pryd ynglŷn â chynnwys yr adroddiad ond mae modd i ni edrych unwaith eto o bosib ar ba mor fodlon yw defnyddwyr wrth i ni ystyried y pwynt hwn.

*Nid oes unrhyw sôn am ystyried gwneud rhai toiledau yn niwtral o ran rhywedd ond nid yw hyn yn cael ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Integredig wrth i ni ystyried effaith ar leiafrifoedd e.e. y rhai sydd yn chwilio am ailbennu rhywedd ayyb.*

At hyn, mae yna bryderon pe bai'r holl doiledau yn cael eu gwneud yn rhai niwtral o ran rhywedd, byddai yna bryderon am fenywod sydd ar ben eu hunain mewn lleoliadau fel meysydd parcio os bydd hyn yn cael ei ystyried, bydd angen ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Hefyd, mae yna oblygiadau o ran adnoddau sydd angen eu hystyried wrth ddarparu 3 mynediad gwahanol.

Oes, mae modd ystyried hyn wrth i ni symud ymlaen.

*Byddai'n dda ystyried a oes yna fylchau e.e. nid oes yna doiled cyhoeddus yn Ynysgynwraidd, lle y mae nifer yn ymweld dros yr haf. Sut ydym am fynd i'r afael gyda hyn?*

Yn sgil y gost, mae'n annhebygol y byddwn yn gosod unrhyw unedau toiled newydd – costau parhaus e.e. draenio, trydan a'r gost gychwynnol o adeiladu. Rydym yn medru cysylltu gyda chyfleusterau preifat yn yr ardal er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn medru cael mynediad at doiled. Mae'r nifer sydd yn y sir yn dda ar y cyfan h.y. mae 18 bloc a 29 arall sydd â chyfleusterau ond mae angen i ni sicrhau eu bod yn y lleoedd cywir. Ond mae llawer o'r adborth yn dda iawn e.e. ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer yr anabl yng Ngorsaf Fysiau'r Fenni ac mae angen ystyried sut y mae'r arolwg yn tueddu i wyro at adborth negatif. Ond mae'n syniad dilys ein bod yn ail-ystyried yr arolwg. Er nad oes cyllid gennym ar hyn o bryd i adeiladu unedau newydd, rhaid i ni edrych ar gyrchfannau twristaidd yn y sir.

*A yw'r oriau agor yn crebachu o ran y toiledau sydd gennym? Mae cau'n gynnar yn broblem os mai'r rheswm am hyn yw pryderon am gymryd cyffuriau gan nad ydym yn cau'r parciau neu'r cyfleusterau eraill am y rheswm hwn.*

Nid yw oriau agor ein darpariaeth gyfredol wedi eu heffeithio gan gyngor gan Heddlu Gwent ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac maent yn hyblyg e.e. byddant yn cael eu hymestyn yn ystod digwyddiadau fel Gŵyl Fwyd y Fenni.

*Rwy'n anghytuno fod yna doiledau o fewn pellter cerdded i Lôn y White Horse. A fyddai'r Cyngor yn ystyried cytundeb gyda Chyngor Tref y Fenni er mwyn ystyried a oes modd rhannu cyfrifoldeb neu drafod a oes yna mecanwaith er mwyn caniatáu eu hail-agor?*

Mae'n anarferol fod cynifer o doiledau ar gyfer poblogaeth o faint y Fenni: Iard y Bragdy, Stryd y Castell, yr orsaf fysiau, Wetherspoons, Morrisons, ayyb. Pan drafodwyd hyn o'r blaen gyda'r ATC, nid oeddynt 'yn gwrthwynebu' CSF yn cau toiled Lôn y White Horse. Mae'r sylwadau negatiff am gyflwr y toiled yn yr adroddiad a'r ffigwr uchel sydd angen ar gyfer ei atgyweirio/ailwampio yn esbonio pam ei fod wedi ei gau. Yr Heddlu oedd wedi nodi fod hwn yn bwynt penodol ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ond byddai modd i Aelodau i ail-ystyried y mater.

*Mae'r pwynt Cyffordd Twnnel Hafren sydd yn yr adroddiad yn hanfodol. Mae cdaw toiledau yn rhad ac am ddim yn bwysig iawn. Mae'r cyfleusterau newid babanod hefyd yn bwysig iawn. Pan fydd y toiledau yma yn cau, maent yn dod yn fwy o darged ar gyfer fandaliaeth ac mae angen mynd i'r afael gyda hyn – a fyddant yn cael eu dymchwel e.e. y rhai sydd wedi eu cau ar yr A40?*

Mae'r rhain yn bwyntiau da y byddwn yn eu hystyried. O safbwynt yr A40, mae'n gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru gan ei fod yn gefnffordd ond mae modd i ni ofyn iddynt hwy am ddiweddariad.

*Pam fod yr amcangyfrif ar gyfer atgyweirio Lôn Whitehorse mor uchel, sef £93k?*

Gwasanaethau Landlordiaid oedd wedi darparu'r ffigyrau ar ôl ymweld gyda'r holl doiledau. Mae'r ffigwr yn gymharol uchel - rydym wedi cael gwybod bod yna broblemau gyda'r to a'r draeniau ond mae modd i ni ofyn am fanylion pellach.

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Ar y cyfan, mae'r Pwyllgor yn bositif am yr ystod dda o ddarpariaeth y toiledau yr ydym yn cynnig yn Sir Fynwy. Roedd y Cynghorydd Bryn wedi codi pwynt da iawn am fod yn gyfeillgar o ran Stoma a bod arwyddion da. Mae angen egluro a oes yna gyfleusterau newid babanod yn y toiledau ar gyfer dynion a menywod. Gofynnodd y Cynghorydd Chandler a oes modd sicrhau bod y geiriad 'Gofodau Newid' yn cael ei gryfhau a beth mae'r Cyngor yn gwneud er mwyn mynd i'r afael gyda'r diffyg darpariaeth ar gyfer pobl anabl yn y sir. Yn ystod y cyfarfod 'galw i mewn' diweddar, roedd trigolion wedi mynegi pryder am addasrwydd a pha mor anodd yw'r toiledau anabl ar gyfer newid oedolion sy'n anabl, ac felly, mae angen ystyried hyn. Byddai'n ddefnyddiol i wybod os mai dynion neu fenywod sydd yn cwblhau'r Arolwg Bodlonrwydd Defnyddwyr a'u hoedran. Dylid ystyried y syniad o doiledau sydd yn niwtral o ran rhywedd ond awgrymwyd cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn sgil pryderon am ddiogelwch defnyddwyr benywaidd. Mae angen arwyddion gwell. A oes modd i ni ystyried y cyrchfannau twristaidd lle y mae nifer o ymwelwyr ond nid oes toiledau yno e.e. Ynysgynwraidd? Awgrymodd y Cynghorydd Callard y dylid ystyried rhannu cyfrifoldeb gyda Chyngor Tref y Fenni ar gyfer toiledau Lôn White Horse, yn hytrach na'u cau gan nad oes yna doiledau gerllaw. Mae'r

Cynghorydd John yn cefnogi gosod toiledau yng Nghyffordd Twannel Hafren gan nodi pa mor bwysig yw sicrhau bod y toiledau yn parhau'n rhad ac am ddim.

Dave Jones: mae angen cywiro hyperddolen CSF i'r amseroedd agor yn yr adroddiad – **CAM GWEITHREDU**

Bydd Dave Jones yn cysylltu gyda Llywodraeth Cymru am y toiledau ar yr A40, gan eu bod yn darged ar gyfer fandaliaeth – **CAM GWEITHREDU**

Bydd Dave Jones yn gofyn am wybodaeth bellach gan Wasanaethau Landlordiaid am gostau, yn enwedig ar gyfer y ffigwr atgyweirio uchel ar gyfer y toiledau yn Lôn Whitehorse– **CAM GWEITHREDU**

#### 4. **Band Eang Gwledig**

Roedd Cath Fallon wedi cyflwyno'r adroddiad ac wedi ateb cwestiynau gan yr Aelodau, gyda'r Aelod Cabinet Paul Griffiths.

**Her:**

*Mae nifer o aelwydydd dal yn teimlo na fyddant yn derbyn band eang am sbel eto. Byddai'n ddefnyddiol pe bai Aelodau yn cael gwybod am y lleoedd ym mhob un ward lle nad oes band eang fel bod modd i ni weithio'n rhagweithiol gyda swyddogion.*

Yn 3.20, mae yna ddolen yn nodi pryd a ble ydym yn adeiladu sydd yn medru rhoi gwybodaeth i Aelodau am y lleoedd sydd yn mynd i dderbyn ffeibr llawn Openreach. Nid yw'n broses syml yn anffodus, ac mae cyfarfodydd wythnosol gennym gyda Broadway ar gyfer prosiectau penodol ac rydym yn medru gofyn iddynt rannu eu cynlluniau i gyflwyno band eang. Felly, os nad yw cymunedau yn cael eu gwasanaethu fel y dymunir, mae modd i ni ofyn am ddiweddariad a dechrau sefydlu perthynas gyda'r peirianwyr sydd yn gweithio yn yr ardal honno. Mae modd i Aelodau felly i wirio hyn drwy ddefnyddio'r ddolen neu drwy e-bostio'r Swyddog sydd wedyn yn medru cysylltu'r Aelodau gyda'r darparrydd.

*A oes modd i ni weld data Broadway yn yr un modd â data Openreach? A oes yna ddolen?*

Byddwn yn rhoi gwybodaeth i Aelodau am y person sy'n bwynt Cyswllt Cymunedol ar gyfer Partneriaid Broadway, gan fod y fath ddeialog yn fwy defnyddiol ac uniongyrchol na chwilio ar wefan.

*Mae yna bryderon ynglŷn â pha mor gadarn yw'r cynlluniau e.e. mae yna drigolyn na sydd yn elwa o ffeibr llawn gan fod BT wedi rhedeg allan cyn cyrraedd ei thŷ ac wedi gwrthod delio gyda'r broblem, ac felly, nid yw'r etholwr yn medru derbyn cysylltiad ychwanegol ac mae wedi bod yn y sefyllfa hon ers blynnyddoedd. A fydd y ffigyrau ar gyfer y sir gyfan yn golygu bod rhai trigolion dal mewn limbo yn y ffordd hon?*

Ar gyfer yr eiddo hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'r Swyddogion gyda gwybodaeth benodol a byddwn yn cwestiynu hyn yn uniongyrchol gyda BT.

*Trigolion gwledig yw'r pryder allweddol. Sut ydym yn medru sicrhau bod yr ardaloedd mwyaf amddifad – o ran cysylltedd – yw'r rhai sydd yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer cysylltiadau newydd, yn enwedig gan fod yr un ardaloedd yma yn dueddol o fod yn rhai sydd heb signal ffôn?*

Rydym yn cytuno ynglŷn â ffocysu ar ardaloedd sydd wedi eu hamddifadu'n ddigidol/mwy gwledig. Yn sgil hyn, rydym wedi bod yn rhan o brosiect pilot ar gyfer prosiect 5G sydd newydd

i ddod i ben gan ystyried Castell Rhaglan ac ysgol ac amgylchedd ffermio. Rydym felly ar flaen y gad pan fydd yna gyfle i roi cynnig ar dechnoleg amgen, gan weithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn ymwybodol nad oes modd sicrhau bod y ffeibr yn cyrraedd y cabinet mewn ardaloedd gwledig yn sgil y tirwedd - dyna pam ein bod yn gweithio gyda Broadway, gan fod y cwmni yn defnyddio technoleg amgen fel technoleg ddiwifr, lle y mae cysylltiad gyda'r cabinet ond sydd yn cael ei daflu o un mast i'r llall neu'r 'Gofod Gwyn', lle y maent yn defnyddio hen analog teledu ar gyfer cyflenwi ymhlith pethau eraill. Nid oes modd i ni wybod ble mae'r trafferthion fesul eiddo a dyna pam y mae'n rhaid i ni weithio ag Aelodau er mwyn datrys problemau yma.

*Roedd yr adroddiad buddsoddiad yn Broadway wedi dod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a dywedwyd wrthym fod blaenoriaethau wedi newid a bod ein partneriaeth gyda hwy'n annhebygol o fod yn rhan o'u cynlluniau wrth i ni symud ymlaen?*

Byddwn yn trafod hyn gyda'r Cyngorydd y tu allan i'r cyfarfod hwn.

*Mae problemau gyda BT yn codi ffioedd ar eiddo unigol am seilwaith - gydag achos penodol yn enghraifft o hyn.*

Yn yr achos penodol hwn, nid oedd problem gyda'r cysylltiad â'r eiddo ond roedd problem gyda'r safle ac rydym wedi bod yn chwilio am ddatrysiadau a oedd wedi arwain at ffioedd atodol.

*Mae Ogi yn darparu ffeibr i eiddo ond mae'n ddibynnol arnynt hwy yn cael eu defnyddio fel darparwr y rhyngwyd, ac felly, mae diffyg cystadleuaeth gyda darparwyr eraill. A oes modd goresgyn monopoli BT Openreach?*

Os mai Openreach sydd yn gyfrifol am y bibell ar gyfer cludo band eang, rhaid ei fod yn agored i unrhyw ddarparwr arall gan fod llawer o hyn wedi ei ariannu'n gyhoeddus. Os oes buddsoddiad preifat sylweddol mewn cwmnïau fel Ogi neu Broadway, nhw sydd yn berchen ar y bibell ar gyfer cludo band eang, a hwy sydd yn berchen ar y rhwydwaith. Mae'n faes cymhleth iawn.

#### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Roedd yr Aelod Cabinet Paul Griffiths wedi rhoi diolch i'r Swyddogion am greu record o welliannau sylweddol yn y sir dros y blynyddoedd a diolchodd yr Aelodau am eu cwestiynau ac amlygu ble mae'r gagendor a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Bydd Cath Fallon yn rhoi gwybodaeth i Aelodau am y person sy'n bwynt Cyswllt Cymunedol ar gyfer Partneriaid Broadway – **CAM GWEITHREDU**

Bydd Ian Chandler yn rhoi gwybodaeth benodol i Cath Fallon am y trigolyn y soniodd amdani a'r broblem a bydd yn ymchwilio'r mater hwn – **CAM GWEITHREDU**

Bydd Cath Fallon yn ymchwilio ymholiad y Cyngorydd Chandler am fuddsoddiad ym Mhartneriaid Broadway gan ymateb y tu allan i'r cyfarfod – **CAM GWEITHREDU**

## **5. Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd**

Roedd yr Aelod Cabinet Catrin Maby a Carl Touhig wedi cyflwyno'r adroddiad ac wedi ateb cwestiynau gan Aelodau.

**Her:**



*A fydd yna ddulliau talu amgen fel nad oes yna ffi un tro? A oes yna gymorth ar gyfer teuluoedd incwm isel? Nid yw rhai Cyngorau yn codi ffioedd am y gwasanaeth – os yn wir, ac felly, sut y mae modd iddynt wneud hyn?*

Nid ydym yn gwybod beth fydd yr incwm tan ein bod yn dechrau'r cynllun. Rydym yn gobeithio gosod y ffi yn £50, a hynny'n seiliedig ar yr adborth yr ymgynghoriad a'r arolwg – os yw'r arolwg yn gywir, byddwn ond yn sicrhau bod y £720k sydd angen er mwyn gweithredu'r cynllun. Os yw hyn yn newid a'n bod yn gorgyflawni, mae modd i ni ystyried fersiynau eraill. Os ydym yn cyrraedd 17k o finiau mewn cyllideb sydd yn gorgyflawni, ni fyddem am godi ffioedd am finiau yn y flwyddyn ddilynol ar gyfer y cwsmeriaid yma a byddem yn ceisio talu'r costau ychwanegol. Ni ddylem fod yn gorgyflenwi 'ta beth (nid oes hawl gennym i wneud hyn) ac nid ydym am godi ffi mwy nag sydd angen ar drigolion am wasanaeth. Pan gyflwynwyd y biniau, roedd yna bryder y byddem yn colli llawer o gwsmeriaid, ond rydym wedi cynyddu'r nifer gyda 2,000 o bobl ychwanegol.

Byddai'n anodd gyda'r system Civica sydd gennym ein bod yn cynnig taliadau misol neu chwarterol ond byddai modd i ni ystyried hyn ar gyfer y flwyddyn ganlynol os ydym yn gorgyflawni. Ac os ydym dal yn gorgyflawni yn ystod y flwyddyn ganlynol, bydd modd i ni ystyried gostyngiadau ar gyfer pobl sydd ar incwm isel. Y drafferth eleni yw nad ydym yn gwybod y nifer o gwsmeriaid ac rydym yn gwybod bod cynyddu i £50, a hynny o £28, yn naid sylweddol.

*A yw cyflwyno bin ffi isel wedi lleihau tipio anghyfreithlon?*

Nid ydym wedi gweld unrhyw effeithiau negatif o ran tipio anghyfreithlon. Mae newidiadau ym maes Gwastraff yn aml yn cael eu cysylltu gyda'r bygythiad o tipio anghyfreithlon ond anaml iawn y mae hyn yn digwydd. Nid yw'r bobl sydd yn tipio'n anghyfreithlon fel arfer yn defnyddio ein safleoedd CA neu wasanaethau'r Cyngor 'ta beth, ac felly, nid ydynt yn cael eu heffeithio fel arfer gan y newidiadau yr ydym yn gwneud.

*A ddylem fod yn fwy rhagweithiol yn annog garddwyr i gompostio yn eu cartrefi? A oes yna arian dros ben yn y gyllideb fel ein bod yn medru rhoi'r offer angenrheidiol i bobl?*

Byddwn yn sicr yn ystyried hyn. Rydym yn cynnig biniau am bris sylfaenol (heb ychwanegu dim byd i wneud elw) drwy ein siopau ailddefnyddio a'r casgenni dŵr ond mae hyn yn ffordd o helpu pobl eto gan eu bod yn cael eu cynnig am bris sy'n is na'r gost o'u cynhyrchu. Dyma'r math o syniadau yr ydym am eu hystyried fel rhan o'r broses graffu dros y flwyddyn sydd i ddod.

*A oes modd esbonio'r ffigyrau ymhellach e.e. £6 y cwsmer, cwsmeriaid ychwanegol, costau posib hyd at £850k, ayyb.?*

Mae'r cymhorthdal o £6 yn dod o bob un aelwyd; mae pob aelwyd yn talu £6 drwy'r dreth gyngor ac 14,000 o gwsmeriaid yn defnyddio'r cynllun gwastraff o'r ardd (40,000 o aelwydydd am £6 = £240k). Cwsmeriaid ychwanegol yw un o'r opsiynau sydd yn cael eu hystyried os nad ydym yn gwneud dim byd h.y. os ydym yn cynnig y gwasanaeth eto, mae'n debyg y byddwn yn gweld 2,000 o gwsmeriaid ychwanegol yn cofrestru, a hynny'n seiliedig ar yr hyn yr ydym wedi gweld dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Bydd y cwsmeriaid ychwanegol yma yn gosod cost ychwanegol o £200k ar y gwasanaeth gan y byddwn angen cerbyd ychwanegol, ond bydd hyn ond yn arwain at £56k o incwm ychwanegol os oes angen talu £28 am bob bin. Y prif bwynt i'w nodi yw bod ein costau ar hyn o bryd yn £720k a'n hincwm yn £480k. Er mwyn talu am gostau 14,500 o gwsmeriaid, yn seiliedig ar eu hymatebion, rhaid ni godi ffi o £50, ac os ydynt oll yn cofrestru, byddwn yn cyrraedd £725k. Nid yw costau swyddfa gefn neu'r ffioedd rheoli wedi eu

cynnwys. Os yw'r holl 17,000 o finiau yna yn aros y tu hwnt i'r maes gwasanaeth, byddai'n bosib i ni arbed £850k ond byddai hyn yn annhebygol gan nad yw 14% am weld costau'r gwasanaeth yn cynyddu a byddai'n well ganddynt weld y gwasanaeth yn dod i ben. Fodd bynnag, gyda nifer cryf o gwsmeriaid, rydym yn gobeithio bod modd i lanio rhywle rhwng £720k a £850k, gan leihau'r cymhorthdal sydd yn cael ei fuddsoddi yn ôl i mewn i'r gwasanaethau eraill.

*Os oes yna ostyngiad yn y nifer sydd yn cofrestru ar gyfer y gwasanaeth, yna ni fydd angen cynifer o staff a cherbydau, ac felly, bydd y costau'n lleihau? A yw'r cynnydd o 78% yn rhy uchelgeisiol? Os nad yw'n glir beth fydd nifer y cwsmeriaid, a oes modd cynnig dau daliad o £25, gyda'r ail daliad yn ddiybennol ar y nifer o gwsmeriaid a'r cerbydau sydd angen, fel nad yw pobl yn talu mwy nag sydd angen?*

Yn seiliedig ar y 14% a ddywedodd nad oeddynt yn dymuno derbyn y gwasanaeth os oes yna gynnydd mewn costau, mae hyn yn ein harwain ni nôl at y ffi £50, sydd yn mynd i gostio £725k. Y risg gyda dau daliad ar wahân yw bod pawb yn cofrestru ar gyfer y taliad cyntaf, ond os yw llawer yn penderfynu peidio talu'r ail daliad, yna bydd gweddill y cwsmeriaid yn gorfod talu ail daliad sydd yn fwy na £25 er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn hyfyw. Os yw'r 14% yn byw yn yr ardaloedd sydd yn anodd eu cyrraedd, yna mae'n debyg y byddem yn medru tynnu nôl rhag defnyddio un cerbyd, ond mewn gwirionedd, bydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar draws y sir, a byddwn dal angen y cerbyd ychwanegol - bydd angen i ni golli 25% o gwsmeriaid er mwyn medru colli un cerbyd.

*A oes modd cyflwyno cynllun ar gyfer biniau compostio yn y cartref a gadael i bobl i wybod bod modd gwneud hyn mewn ffordd syml?*

Roeddem wedi hysbysu biniau compostio cryn dipyn tua 7-8 mlynedd yn ôl. Mae 10% o'r sir yn meddu ar finiau compostio a hoffem ystyried y maes hwn yn fwy manwl - os oes yna orwariant o bosib, byddem hefyd yn medru ystyried casgenni dŵr a fyddai'n ddefnyddiol iawn. Byddwn yn sicr yn ceisio hyrwyddo'r biniau compost gyda fideos ayyb sydd yn fwy priodol ar gyfer sut y mae pobl am dderbyn gwybodaeth erbyn hyn.

*Mae angen ystyried nifer o bryderon. Pam ddylai rhywun mewn fflat ag un ystafell wely a dim gardd, neu rywun sydd yn compostio gartref, fod yn cyfrannu ar ran rhywun sydd yn berchen ar ardd fawr ac yn penderfynu cofrestru ar gyfer y gwasanaeth? Pa mor ddoeth yw datgan y dylid sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y dyfodol yn cyfateb i'r cynnydd mewn Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) pam nad ydym yn gwybod faint y bydd hyn yn cynyddu? Mae amseru'r adroddiad yn destun pryder hefyd - dylai pethau gael eu craffu cyn bod adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi.*

Rydym yn ymddiheuro am y trywydd y mae'r adroddiad wedi ei ddilyn, a hynny yn sgil amseru'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet o gwmpas y Nadolig, a'n sicrhau bod y ddogfen ymgynghori yn barod. Byddwn yn sicrhau bod y Cabinet yn gwybod am yr hyn a drafodwyd heddiw – bydd yn cael ei ychwanegu at adroddiad y Cabinet.

*A ydym hefyd yn creu incwm o'r gwastraff unwaith ei fod wedi ei gompostio, fel gwrtaith, ac a yw'r ffigyrau yma wedi eu hystyried?*

Mae'r gwastraff o'r gerddi yn cael ei drin mewn fferm yn y Fenni, lle y caiff ei wasgaru ar y tir. Rydym yn prynu ychydig o'r gwrtaith yn ôl a'i werthu yn y siopau ail-ddefnyddio. Byddai danfon hyn i safle a oedd yn cynnig rhoi ychydig o arian nôl i ni yn costio £250k yn ychwanegol, gyda'r risg na fyddem yn creu'r incwm, ac felly, rydym yn credu ein bod wedi taro'r fargen orau ar gyfer

ein trigolion. Nid oes modd cynnwys cost y driniaeth yn y ffioedd – mae tu hwnt i hyn. Yr unig ffi sydd yn medru cael ei godi yw ar gyfer casglu ac nid yw hyn yn ffurfio rhan o'r £50, ond pe bai elw yn cael ei wneud drwy werthu'r compost, byddem yn disgwyl ail-fuddsoddi hyn mewn gwasanaethau, gan gynnwys gwastraff o'r ardd.

*O ran yr Asesiad Effaith Integredig a'r Nodweddion Gwarchoddedig, mae'r gwasanaeth yn bwysig ar gyfer y sawl sydd methu mynd i'r ganolfan ailgylchu yn sgil eu hoedran, ond bydd angen iddynt fynd i un o'r safleoedd gwastraff a chasglu bin compostio ar gyfer y cartref?*

Ydy – mae hynny'n gamgymeriad ond mae wardeniaid ailgylchu gennym ar gyfer pobl sydd yn cael trafferth, a gallwn gynnig cymorth drwy fynd á'r biniau gyda hwy.

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae cynyddu'r gost gymaint â hyn yn anodd ei dderbyn - a oes modd i ni ystyried casglu yn y gaeaf? A allwn ni ofyn i'r Cynghorau cyfagos, lle y mae'r gost ar gyfartaledd ar gyfer gwastraff o'r ardd yn £12 - sut maent hwy yn medru cynnig hyn a ninnau'n methu? Mae Casnewydd a Thorfaen yn cynnig y gwasanaeth am ddim, tra y bydd prisiau Sir Fynwy bedair gwaith yn fwy na'r pris cyfartalog i Gymru. Mae'r nifer o gwsmeriaid sydd yn dychwelyd yn Ebrill yn destun pryder felly.

Trafodwyd dulliau talu amgen e.e. debyd uniongyrchol, rhannu'r taliadau. Gofynnwyd a fyddai defnyddio 'wheelie bins' yn lleihau tipio anghyfreithlon. Dylid annog compostio yn y cartref; dylid ystyried addysgu trigolion yn fwy a'r defnydd o gasgenni dŵr – gan ddibynnu ar y ffigyrau ar gyfer y flwyddyn nesaf, efallai bod modd i ni ystyried hyn. Nododd yr Aelod Cabinet Catrin Maby ei bod am weld gwybodaeth yn cael ei rhannu am gompostio yn y cartref dros y flwyddyn nesaf, yn enwedig gerddi mewn trefi. Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â chostau. Gofynnwyd a ydym yn creu incwm o'r gwastraff ardd sy'n cael ei gompostio. Nodwyd fod y cynllun yn ceisio hwyluso pethau i bobl hŷn neu'r sawl sydd ag anabledd ond mae disgwyl iddynt ddod i'r gorsafoddd trosglwyddo gwastraff er mwyn casglu biniau compostio yn y cartref– dylid mynd i'r afael gyda hyn yn yr Asesiad Effaith. Bydd Carl Touhig wedi darparu gwybodaeth atodol i'r Cabinet ynglŷn â'r costau a bydd mwy o fanylion am y cyfyngiadau amser ac esboniad am pam fod hyn i'w graffu nawr –**CAM GWEITHREDU**

## **6. Blaenraglen Waith a Rhestr Weithredu'r Pwyllgor Craffu Lle**

Mae'r cyfarfod ar 2ail Chwefror am 2pm. Cytunwyd ar ddydd Mercher 29ain Mawrth fel y cyfarfod Arbennig. Cytunwyd ar 10am fel amser dechrau'r cyfarfod ar 13eg Ebrill.

## **7. Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet**

Noder fod hon yn ddogfen fyw: bydd Gwasanaethau Democrataidd yn ei diweddarau'n wythnosol.

## **8. Cofnodion**

Cadarnhawyd y cofnodion a'u harwyddo fel cofnod cywir.



**9. I nodi dyddiad y cyfarfod nesaf fel 3ydd Mawrth 2023 a Chyfarfod Arbennig ar 2il Chwefror 2023 (Cyllideb)**

Mae'r cyfarfod nesaf ar 2ail Mawrth ond bydd yn cael ei symud i'r 1af Mawrth.